

Gyda phwy allwch chi siarad?

Os ydych chi'n poeni am rywun ewch i'n gwefan actearly.uk i gael mwy o wybodaeth ynglŷn â sut gallwn helpu'r unigolyn sy'n peri gofid i chi. Bydd ein gwefan yn helpu i egluro mwy am ein rôl, sut gallwch chi gysylltu â ni yn gyfrinachol, a manylion y sefydliadau eraill a all helpu pe byddai'n well gennyh chi siarad â rhywun arall.

Y peth pwysicaf i'w gofio yw rhannu eich pryderon yn fuan, gyda pha bynnag sefydliad rydych chi'n penderfynu ei gysylltu am gymorth a chyngor.

Cofiwch, mewn argyfwng, gwnewch yn siŵr eich bod yn ddiogel a deialwch 999.

Gellir dewis derbyn cymorth

Cysylltwch â ni'n gyfrinachol a byddwn yn gwrando'n ofalus ar eich pryderon. Gorau po gyntaf y byddwch yn rhannu eich pryderon i ni gael rhoi help i'r unigolyn rydych chi'n poeni amdano. Gellir dewis derbyn cymorth Bydd yn rhaid i ni gael caniatâd yr unigolyn i'w helpu. Yn dibynnu ar y sefyllfa, efallai y byddwn yn estyn allan i sefydliadau eraill rydym yn gweithio gyda nhw er mwyn rhoi'r cymorth priodol ar waith. Gallai hynny fod yn gymorth gan feddyg, drwy ysgol, neu gyda grŵp cymuned leol neu fentor, er enghraifft.

Os ydych chi'n pryderu, rhowch wybod i ni. Fyddwch chi ddim yn gwastraffu ein hamser ac ni fyddwch yn difetha bywydau, ond fe allech chi eu hachub. Ewch i actearly.uk i gael rhagor o wybodaeth.

ACT | ACTION
COUNTERS
TERRORISM



Gall godi ofn amoch pan fydd rhywun agos yn mynegi safbwyntiau eithafol

Oes rhywun agos yn mynd yn ddiarth?



Os ydych chi'n poeni bod rhywun rydych yn ei adnabod yn cael ei radicleiddio, ewch i actearly.uk

ACT | ACTION
COUNTERS
TERRORISM

Gall fod yn anodd gwybod beth i'w wneud os ydych yn poeni bod rhywun agos yn mynegi safbwyntiau eithafol neu gasineb a allai arwain atyn nhw'n brifo eu hunain neu bobl eraill. Gan weithio law yn llaw â sefydliadau eraill, mae'r heddlu'n diogelu pobl agored i niwed rhag cael eu hecsbloetio gan eithafwyr drwy raglen gan y Swyddfa Gartref, sef Prevent.

Pwy ydym ni

Mae gan heddluoedd ledled y wlad swyddogion Prevent sydd wedi cael hyfforddiant arbennig, ac maen nhw'n gweithio gyda gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, addysg, awdurdodau lleol ac elusennau, yn ogystal â grwpiau ffydd a chymuned i helpu pobl agored i niwed droi eu cefnau ar eithafiaeth.

Oherwydd bod pob un o'r sefydliadau'n rhan o'r broses o'r cychwyn, rydym yn gallu mynnu'r help maen nhw ei angen yn gyflym. Drwy weithio gyda'n gilydd, rydym ni wedi helpu llawer o bobl i ddod o hyd i lwybr i ffwrdd o eithafiaeth.



Mae eithafwyr yn gwneud eu gorau i gael y tu mewn i bennau pobl agored i niwed

“Roeddwn i'n gwybod bod rhywbeth o'i le. Roedd arna i ofn, ac roeddwn i'n teimlo'n nerfus fel bod y tywod yn symud oddi tan fy nhraed. Achubais y cyfle pan gafodd fy mab ei gyfeirio at raglen Prevent. Roedd yn braf cael cymorth.

”
Mam mab a gafodd gefnogaeth drwy raglen Prevent

Sut gallwn ni helpu'r unigolyn sy'n bwysig i chi

Mae pob achos yn cael ei asesu gan swyddogion Prevent sy'n gweithio gyda sefydliadau eraill er mwyn rhoi'r cynllun gorau ar waith i gefnogi'r unigolyn. Gall hyn olygu bod y cymorth priodol yn cael ei ddarparu gan elusen, eich awdurdod lleol neu rywun sy'n gweithio ym maes iechyd neu addysg. Yn y rhan fwyaf o achosion nid oes angen i'r heddlu barhau i gymryd rhan.

“Peidiwch ag anwybyddu'r newidiadau bach, oherwydd erbyn i chi sylweddoli'r perygl bydd y broblem yn un llawer iawn mwy i ddelio â hi. Dechreuwch y sgwrs. Rhowch ffydd yn eich greddf.

”
Aelod o deulu rhywun a gafodd gefnogaeth drwy raglen Prevent



Mae llawer o bobl yn cael eu tynnu i mewn i radicaliaeth gan gynnwys ar-lein a chyfyngau cymdeithasol

Pam ei bod yn bwysig cymryd camau'n fuan a rhannu eich pryderon

Gallai fod yn ddim byd, ond beth os yw'n fwy na hynny? Gall godi ofn arnoch i feddwl y gallai rhywun agos fod yn mynd i lawr llwybr tuag at eithafiaeth. Ond ffrindiau a theulu sydd yn y lle gorau i wybod pan nad yw rhywbeth yn teimlo'n iawn. Rydym ni yma i helpu. Y ffordd orau i chi ddiogelu rhywun rydych yn ei garu rhag brifo eu hunain neu bobl eraill yw drwy ofyn am gyngor yn fuan. Gyda'n gilydd gallwn helpu i'w rhwystro rhag cael eu tynnu i mewn i weithgareddau neu grwpiau niweidiol.